Adroddiad	**Swyddogion Adolygu Annibynnol** **Uned Diogelu ac Ansawdd**
Ar gyfer	Panel Rhiantu Corfforaethol – Medi 2021
Awduron	Dawn Owen, Paul Cuniffe, Huw Owen a Nia Hardaker. Swyddogion Adolygu Annibynnol

1. Pwrpas a Chyd-destun

Cyflwynir yr adroddiad hwn fel dull o gyflawni dyletswydd statudol y Swyddogion Adolygu Annibynnol i "fonitro gweithgarwch yr awdurdod lleol sy'n gweithredu fel rhiant corfforaethol da." (Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer Rhan 6, Paragraff 371).

Mae'r adroddiad yn mesur cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis Mawrth 2018.

2. Argymhellion a Chynnydd

Amcan Gwella (nodwyd ym mis Mawrth 2018):	Argymhellion (nodwyd ym mis Mawrth 2018):	Cynnydd
Ansawdd asesiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.	Rhaid i bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal gael asesiad cyfredol o'u hanghenion ar ffeil - gan gynnwys portread byr o bob plentyn: Dylid eu diweddaru'n rheolaidd h.y. o leiaf bob blwyddyn.	Yn dilyn trafodaethau blaenorol yn y Panel Rhiantu Corfforaethol, croesawodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol y cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr y dylid sicrhau bod pob plentyn yn cael asesiad cyfredol erbyn diwedd Mis Ionawr 2020. At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir bod gan blentyn asesiad cyfredol os caiff ei gynnal yn 2020 neu 2021. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi edrych ar sampl o 20 achos, ac ni chafodd 11 o'r plant asesiad cyfredol (55%). Felly, mae hyn yn parhau i fod yn destun pryder. Nodir hefyd nad oedd rhai o'r

		asesiadau yr ystyriwyd eu bod yn "gyfredol" at ddibenion yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r newidiadau sylweddol y mae rhai o'r plant wedi'u profi ers cwblhau eu hasesiad. Mae adroddiad yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd gan y Swyddog Ymarfer a Gwella Ansawdd a fydd yn cynnwys ystyried ansawdd asesiadau. Bydd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cyfarfod y Swyddog Ymarfer a Gwella Ansawdd ar ôl cwblhau'r adroddiad ac, os yw'n briodol, yn darparu gwybodaeth berthnasol yn ein hadroddiad nesaf i'r Panel Rhiantu Corfforaethol.
Cynlluniau Gofal a Chymorth ar waith – sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a ddymunir, ymyriadau i fodloni'r canlyniadau hynny, ac amserlenni. Adolygu a monitro trylwyr o'r gweithredu a'r gwahaniaeth a wnaed	Rhaid rhoi Cynlluniau Gofal a Chymorth cyfredol ar waith ar gyfer pob plentyn.	Yn dilyn trafodaethau blaenorol yn y Panel Rhiantu Corfforaethol, rhoddodd y rheolwyr gyfarwyddyd i ganslo Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal oni bai bod Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 wedi'i gyflwyno i'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ymlaen llaw. Mae'r broses hon wedi'i hadolygu i sicrhau trefn well o gydymffurfio â gofynion rheoliadol a safonau ymarfer. Mae'r Adolygiad bellach yn derbyn adroddiad gan y Gweithiwr Cymdeithasol a chopi o'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 cyfredol (nad yw wedi'i ddiweddaru). Caiff

		Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 ei ddiweddaru yn dilyn yr adolygiad, gan roi cyfle i ymgorffori materion perthnasol sy'n codi o'r Adolygiad. Bydd y cynnydd o ran diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad nesaf i'r Panel. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2021, derbyniwyd adroddiadau cryno mewn 43 o'r 47 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) (91%). Nodir, er ei fod wedi'i gyflwyno mewn modd amserol, fod un adroddiad wedi'i ddychwelyd i'r Gweithiwr Cymdeithasol oherwydd nad oedd digon o wybodaeth. Nodir bod y rhan fwyaf o'r adroddiadau wedi dod i law ar ddiwrnod yr Adolygiad PDG neu'r diwrnod blaenorol. Ni chyflwynwyd un tan ar ôl i'r cyfarfod sy'n rhan o broses Adolygu PDG gael ei gynnal. Ymddiheurodd nifer o'r Gweithwyr Cymdeithasol am gyflwyno eu hadroddiad yn hwyr, gan ddweud mai'r rheswm am hynny oedd pwysau gwaith. Y ganran gyfatebol yn ein hadroddiad blaenorol oedd 91% a 97% am ddau gyfnod gwahanol pan gasglwyd data. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r hyn a adroddwyd yn flaenorol yn ein

		hadroddiadau i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn credu bod cymorth gan Swyddog Cymorth Busnes dynodedig wedi bod yn amhrisiadwy wrth sicrhau'r gwelliant hwn.
Adolygu a monitro trylwyr o'r gweithredu a'r gwahaniaeth a wnaed.	Rhaid gwella'r gwaith paratoi ar gyfer adolygiadau a darparu gwybodaeth sy'n hwyluso'r broses o graffu ar gynllun y plentyn, a'i ddatblygu.	Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i adolygu templed Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at ffurf lai ailadroddus a fydd yn canolbwyntio mwy ar y plentyn. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gobeithio y bydd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ystyried y dasg hon yn un o'i blaenoriaethau. Mae'r nifer uchel o adroddiadau cryno a gyflwynir cyn Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddefnyddiol i'r Gweithwyr Cymdeithasol a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu gwaith paratoi.

Ansawdd a chysondeb cadw cofnodion.	Cofnodi ymweliadau statudol – dangos dealltwriaeth o'r gofynion, a'r cofnod i'w arwyddo gan y plentyn a'r gofalwyr.	Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau o'r farn bod cadw cofnodion achos wedi bod yn gyson dda ers peth amser bellach. Deellir bod sustemau ar waith i fonitro'r cofnod. Fel gydag asesiadau, mae'r Swyddog Ymarfer a Gwella Ansawdd yn paratoi adroddiad a fydd yn cynnwys ystyried cofnodi achosion. Bydd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cyfarfod y Swyddog Ymarfer a Gwella Ansawdd ar ôl cwblhau'r adroddiad ac, os yw'n briodol, yn darparu gwybodaeth berthnasol yn ein hadroddiad nesaf i'r Panel Rhiantu Corfforaethol.
Ffocws penodol ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal – Cwblhau'r achosion lle mae angen dirymu'r Gorchmynion: a nodi pob achos lle y gallai Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig fod yn briodol a chanolbwyntio ar ddatblygu'r achosion hynny.	Cynnydd o ran cynlluniau sefydlogrwydd ar gyfer nifer o blant lle byddai trefniadau Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig yn well canlyniad.	Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i fynychu cyfarfodydd Cynllunio Gofal Parhaol. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn teimlo bod hyn yn arwain at rannu gwybodaeth mewn modd amserol, i hwyluso'r broses o graffu a rhag i achosion barhau. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu ymrwymiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i adolygu ei bolisi ar Orchmynion Gwarcheidwad Arbennig. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn bod y Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol ym mhob achos perthnasol lle gellid ystyried

		Gorchmynion Gwarcheidwad Arbennig. Cynllun Llwybr Ôl-16: Cyflwynodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol adroddiad penodol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol diwethaf ar gynnydd Cynlluniau Llwybr Ôl-16. Bydd cynnydd yn cael ei nodi yn ein hadroddiad nesaf.

Ymateb y gwasanaeth i'r uchod: Darperir yr ymateb ar ddiwedd yr adroddiad.

3. Adolygiadau

Mae'r broses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau trwy wahanol gyfryngau rhithiol. Er bod gan hyn fanteision o ran gallu parhau i gynnal cyfarfodydd a gweld plant ac oedolion allweddol drwy gyfrwng y sgrin, mae anfantais enfawr hefyd i beidio â chael sgwrs wyneb yn wyneb â phlant.

Cynhaliwyd cyfanswm o 120 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 23 Gorffennaf 2021. Roedd cyfanswm o 118 (98%) o fewn amserlenni statudol. Gohiriwyd un oherwydd diffyg adroddiad, a bu'n rhaid gohirio'r llall oherwydd bod y Gweithiwr Cymdeithasol ar wyliau blynyddol, ac am fod yn rhaid i'r Arweinydd Ymarfer a fwriadai fynd yn ei le fod yn bresennol yn y Llys ar fyr rybudd.

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi bod yn ymwybodol ers peth amser o'r angen i ddarparu cofnod o'r Adolygiad mewn modd amserol, h.y. i ddarparu argymhellion yr Adolygiad o fewn yr amserlen ofynnol. O sampl ar hap o 60 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, rhannwyd y cofnod llawn mewn 59 o achosion (98%) o fewn 20 diwrnod gwaith. Rydym hefyd wedi dechrau ystyried sut y cofnodir y broses adolygu fel ei fod wedi'i ysgrifennu ar gyfer y plentyn.

4. Dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein dull gweithredu fel Swyddogion Adolygu Annibynnol i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y plentyn a phroses adolygu'r plentyn, gan roi mwy o lais iddynt o fewn y gwasanaeth lle bo angen. Rydym yn cyfeirio'r panel at y ganmoliaeth ddiweddar i'n gwaith gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol (SADA) yn dangos eu hyder i herio a thynnu sylw at unrhyw barhad o ran ymarfer neu unrhyw ymarfer nad yw'n bodloni disgwyliadau. Mae ffocws cryf ar sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed a'u bod yn defnyddio dulliau creadigol i sicrhau bod y broses o ymgysylltu â phlant yn parhau drwy gydol heriau parhaus i ddarparu gwasanaethau. Yn gwbl briodol, mae eu pwyslais yn parhau i fod ar ddatrys diffygion yn lleol a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant fel unigolion. Bydd yr awdurdod lleol am barhau i feithrin hyder SADA a chydnabod eu cryfder a'u her fewnol fel ased.

Fel Swyddogion Adolygu Annibynnol rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer plant mewn gofal yn gadarn ac yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn, a bod y cynlluniau'n cael eu cyflawni mewn modd amserol. Rydym yn cyflawni'r dasg hon drwy broses adolygu a monitro. Mae hon yn broses gymhleth iawn sy'n gofyn am sbectrwm eang o wybodaeth, ac amrywiaeth o sgiliau. Un o ofynion allweddol y rôl yw ein bod yn gweithio mewn Ffordd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn. Mae hyn yn golygu ein bod yn:

- Cyfathrebu â phlant mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran, am eu dymuniadau a'u teimladau. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gyfathrebu â phlant ag anawsterau dysgu, neu broblemau cyfathrebu eraill
- Gwneud trefniadau ar gyfer y broses adolygu sy'n seiliedig ar anghenion a dymuniadau'r plentyn
- Cynnal yr adolygiad mewn modd sy'n rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses.

Fel gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol, rydym am gyflwyno dull newydd at y broses adolygu draddodiadol. Un cwestiwn allweddol i ni yw'r ffordd orau o roi'r plentyn wrth wraidd y broses cynllunio ac adolygu gofal. O dan arweiniad y Rheolwr Gwasanaeth, rydym yn datblygu Dull Gweithredu Sy'n Seiliedig ar Drawma i'n gwaith. I wneud hynny rydym yn datblygu ein

- Dealltwriaeth o effaith trawma datblygiadol, datblygiad normadol plant a'r hyn sy'n helpu i feithrin diogelwch yn ein hymwneud â phlant ac oedolion.
- Dealltwriaeth o gyfathrebu ar gyfer cysylltu er mwyn helpu i greu ymdeimlad o ddiogelwch i'r plentyn a'r teulu
- Y gallu i greu amodau lle gall ymddiriedaeth ddatblygu.
- Y gallu i greu sicrwydd o fewn y broses adolygu - teimlad o ddiogelwch a bod modd rhagweld.
- Adnoddau i hwyluso rhyngweithio a allai helpu i feithrin profiad llai brawychus i blant a theuluoedd.

Mae un Swyddog Adolygu Annibynnol wedi cwblhau'r Diploma Lefel 5 mewn Ysgolion sy'n Seiliedig ar Drawma ac Iechyd Meddwl yn llwyddiannus, a bydd yn treialu ffordd newydd o gynnal Adolygiadau PDG sy'n canolbwyntio ar blant yn y dyfodol agos, yn ogystal â rhannu'r dysgu gyda chydweithwyr. Ym mis Medi, byddwn yn cynnal sesiynau dysgu, wedi'u mentora gan Dr Coral Harper, i

- Ddysgu mwy am sut i adnabod ac ymateb yn sensitif i bobl sydd wedi profi trawma.
- Myfyrio ar ein hymarfer a manteisio ar adnoddau ymarferol i'n helpu i ymateb mewn ffordd fwy seiliedig ar drawma.
- Creu cynllun gweithredu personol.

- Nodi pa gymorth sydd ei angen arnom i roi'r cynllun gweithredu personol ar waith

Byddai'r Rheolwr Gwasanaeth yn hapus i fynychu'r Panel hwn i rannu, a chael ei herio, ar y gwaith a wnaed i gryfhau'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol.

5. Gwahoddiad i gyfarfodydd chwarterol

Mae trefniadau wedi bod ar waith ers peth amser ar gyfer cynnal cyfarfodydd chwarterol rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r Rheolwr Gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd yn adeiladol ac yn fodd o gydweithio i wella arfer. Mae'r trafodaethau canlynol wedi'u cynnal. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar 23 Ebrill 2021, gyda'r nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 9 Medi 2021. Yn ystod y drafodaeth ym mis Ebrill, trafodwyd y canlynol:

a) Mae'n ofynnol i bob Plentyn sy'n Derbyn Gofal gael Gwaith Taith Bywyd. Dylai hyn gynorthwyo'r plant i gael cipolwg ar yr hyn sydd wedi digwydd iddynt a pham eu bod yn derbyn gofal. Rhannodd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wybodaeth gyda'r Swyddogion Adolygu Annibynnol fod Gweithiwr Cymdeithasol wedi'i benodi o fewn Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru i arwain y gwaith hwn. Trefnwyd cyfarfod yn fuan wedyn rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r Gweithiwr Cymdeithasol, gan fod dyletswyddau o fewn proses adolygu plant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud. Fel Swyddogion Adolygu Annibynnol, rydym yn annog ymarferwyr i fod yn greadigol wrth ymgymryd â'r gwaith hwn – ac nid dibynnu ar waith ysgrifenedig a lluniau yn unig. Mae defnyddio fideos, tedi cof a wneir o ddeunyddiau o'u cartref genedigol, tapiau o leisiau rhieni biolegol ac ati yn rhai syniadau ar sut i gefnogi plentyn i ddeall ystyr eu taith bywyd.

b) Dywedodd Swyddogion Adolygu Annibynnol nad oeddent yn gyfforddus â phenderfyniad y Gwasanaethau Plant i gysywllt rhwng plant a rhieni fod drwy gyfrwng rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb o fis Ionawr ymlaen oherwydd y pandemig. Gan gydnabod y risgiau'n llawn, ni chafodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol asesiadau unigol yn dangos risgiau penodol mewn achosion, ac ni ystyriwyd mesurau lliniaru posibl. Yr her oedd sicrhau bod ystyriaeth unigol wedi bod i bob achos yn seiliedig ar risg ac angenrheidrwydd a'n bod yn osgoi ar bob cyfrif y bwriad neu'r argraff mai polisi cyffredinol oedd hwn.

(c) Cyfeiriodd Swyddogion Adolygu Annibynnol at anawsterau i gael gafael ar ddogfennau allweddol fel Gorchmynion Llys ac ati ar y sustem ffeilio electronig a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

(d) Cytunwyd y byddai'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn derbyn copi o gofnodion cyfarfod y Panel Adnoddau. Mae hyn yn fodd i rannu gwybodaeth yn amserol am benderfyniadau adnoddau a wneir ar gyfer plant. Mae'n gadarnhaol dweud bod y cofnodion bellach yn cael eu rhannu, a bod y trefniant o gymorth i fonitro achosion yn barhaus.

(e) Nodwyd bod un Swyddog Adolygu Annibynnol wedi mynychu gweminar Diwygio Cyfraith Gyhoeddus. Bydd disgwyl i Awdurdodau Lleol reoli achosion amddiffyn plant cymhleth heb Orchmynion Llys. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer gwaith o ddydd i ddydd, a'r potensial ar gyfer llai o graffu gan na fydd y broses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal yn gymwys.

6. Cysondeb Gweithwyr Cymdeithasol

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi datgan mewn adroddiadau blaenorol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol eu bod yn pryderu am drosiant staff. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn Gweithwyr Cymdeithasol wrth dderbyn cymorth gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae bob amser yn fanteisiol i blant adnabod eu Gweithwyr Cymdeithasol yn ddigon da i allu ymddiried ynddynt gyda materion trawmatig, poenus a chyfrinachol yn aml. Mae parhad mewn Gweithwyr Cymdeithasol hefyd yn rhoi dealltwriaeth drylwyr o'r materion, a gall arwain at osgoi oedi mewn gweithredu.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi ystyried nifer yr achosion lle newidiwyd y gweithiwr cymdeithasol ers yr adolygiad statudol blaenorol.

Mewn sampl o 43 o Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, roedd y plentyn yn parhau i fod dan ofal yr un Gweithiwr Cymdeithasol ag yn yr Adolygiad Blaenorol o Blant sy'n Derbyn Gofal mewn 32 o achosion (74%). Yn adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol i Banel mis Mawrth dyfynnwyd dwy ganran ar gyfer cysondeb mewn Gweithwyr Cymdeithasol yn ystod cyfnodau gwahanol, sef 80% a 76.6%.

Ystyriwyd yr achosion lle'r oedd Gweithiwr Cymdeithasol gwahanol. Roedd un oherwydd absenoldeb mamolaeth; mae dau Weithiwr Cymdeithasol wedi gadael eu swyddi gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a throsglwyddwyd aelod o staff yn fewnol i'r tîm ôl-16. Nodir bod gan un plentyn dri Gweithiwr Cymdeithasol gwahanol o fewn 5 mis. Er hynny, gwelwyd ymdrechion i ddewis Gweithwraig Gymdeithasol a oedd eisoes yn adnabod y plentyn, sef Gweithwraig Gymdeithasol a oedd wedi gweithio gyda phlentyn cyn cymhwyso. Roedd rhai o'r newidiadau oherwydd salwch un aelod o staff. Mewn un Adolygiad PDG, roedd yr Arweinydd Ymarfer perthnasol yn gyfrifol am yr achos nes y gellid ei ddyrannu, gan sicrhau dilyniant.

Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, pan fo Gweithiwr Cymdeithasol yn newid, fod yr achos yn parhau i gael ei roi i'r un grŵp ymarfer. Yn unol â hynny, bydd yr un Arweinydd Ymarfer yn parhau i oruchwylio'r gwaith.

7. Ymweliadau Statudol

Er mwyn paratoi'r adroddiad hwn, ystyriwyd sampl ar hap o 30 o achosion i ganfod p'un ai a gynhaliwyd ymweliadau statudol Plant sy'n Derbyn Gofal mewn modd amserol. Mae'n gadarnhaol iawn nodi bod yr ymweliadau wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni ym mhob un o'r 30 (100%), er nad oedd rhai wedi'u cofnodi eto. Mae tystiolaeth bod ymweliadau bellach yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn hytrach nac yn rhithiol.

8. Materion allweddol o'r Adroddiad hwn.

Ym marn y Swyddogion Adolygu Annibynnol, dyma'r materion allweddol sy'n codi o'r adroddiad hwn:

(a) Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn croesawu'n fawr y cynnydd yn nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd cyn Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal;

(b) Mae angen i’r ymdrechion i sicrhau bod angen i bob plentyn dderbyn asesiad cyfredol barhau; ac ansawdd yr asesiadau yn cael ei oruchwylio gan yr Arweinydd Ymarfer perthnasol;

(c) Bod y Panel yn gwahodd y Rheolwr Gwasanaeth i gyflwyno Cynllun Datblygu Swyddogion Adolygu Annibynnol iddynt.

Ymateb i'r adroddiad uchod gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:

Mae'r gwasanaeth yn croesawu'r adroddiad cadarnhaol i raddau helaeth a baratowyd gan yr Uned Ddiogelu ac yn nodi'r arfer gwell/cysondeb ar draws ystod o swyddogaethau, gan gynnwys cofnodi amserol.

Lluniwyd polisi drafft ynghylch dull 'dim niwed' o gefnogi ceisiadau am Orchmynion Gwarcheidwad Arbennig mewn perthynas â phlant 'sy'n derbyn gofal' a disgwylir iddo gael ei ystyried yn y tîm Rheoli Plant ym mis Medi. Fel y nodwyd eisoes yn y Panel Rhiantu Corfforaethol, yr amserlen ar gyfer adolygu templed Rhan 6 yw Rhagfyr 2021.

Mae'n bwysig bod pob plentyn 'sy'n derbyn gofal' yn cael asesiad cyfredol o'u hanghenion. Bydd ffocws o'r newydd ar hyn yn ystod y ddau chwarter ac mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd tystiolaeth o welliant sylweddol o fewn y cyfnod hwnnw. Mae manylion ynghylch pryd y dylid diweddaru asesiadau wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau plant sy'n derbyn gofal.

Mae gwaith taith bywyd yn ddarn hanfodol o waith i'r plant hynny gaiff eu lleoli gyda mabwysiadwyr. Mae dau darged newydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i wella perfformiad awdurdodau o ran prydlondeb. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) wedi penodi gweithiwr cymdeithasol 'Taith Bywyd' i gynorthwyo ar draws Gogledd Cymru o ran prydlondeb ac ansawdd. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, bydd y Swyddogion Arolygu Annibynnol yn monitro ac yn herio perfformiad.

Roedd y trefniadau ar gyfer cysylltu â phlant mewn gofal yn her benodol i'r gwasanaeth yn ystod y ddau gyfnod o gyfyngiadau symud. Yn ddealladwy, ffocws y Swyddogion Adolygu Annibynnol oedd herio'r gwasanaeth o ran buddiannau gorau'r plentyn a dyma'r hyn a ddigwyddodd. Hefyd rhoddodd y gwasanaeth anghenion y plant unigol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau; fodd bynnag, roedd yn aml yn wynebu tensiynau cystadleuol yng nghyd-destun y ddyletswydd gofal i iechyd rhieni, gofalwyr maeth a staff. Rydym yn hynod falch o'n staff a'n gofalwyr maeth wnaeth ymateb i'r her mewn amgylchedd mor heriol a chymhleth. Ni chawsom bopeth yn iawn, dysgwyd gwersi ar hyd y ffordd yn sicr, ond gweithiodd y staff yn ddiwyd ac yn ddewr i gyflawni'r trefniadau gorau ar gyfer sicrhau cyswllt rhwng plant â phobl bwysig, gan gydbwyso anghenion pawb mewn cyfnod o ansicrwydd mawr. Yn bennaf, cydnabu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn llawn pa mor dda yr ymatebodd y gwasanaeth i'r pandemig yn gyffredinol yn ystod eu 'hymweliad sicrwydd' diweddar.

Mae'r adroddiad yn nodi'r agenda diwygio cyfraith gyhoeddus (2021) a bydd y gwasanaeth yn gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i ymarfer dros y misoedd nesaf. Mae'r gwasanaeth yn fodlon darparu adroddiad i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis

Rhagfyr ynghylch natur y diwygiadau hyn a'r hyn y mae'n ei olygu i ymarfer ar Ynys Môn, os yw'r panel o'r farn bod hyn yn briodol.

Mae cysondeb gweithwyr cymdeithasol yn rhywbeth y mae plant a phobl ifanc yn ei ddyfynnu dro ar ôl tro fel ffactor pwysig iddynt ar eu taith drwy ofal. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir y rhesymau dros hyn; meithrin perthnasoedd ag ymddiriedaeth wrth eu craidd. Heb os, bydd y gwasanaeth bob amser yn wynebu heriau wrth i weithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol symud ymlaen, cael cyfnodau o salwch neu fod ar absenoldeb mamolaeth. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosibl o newid rhwng gweithwyr cymdeithasol

Deunydd Cyfeirio

Llywodraeth Cymru, (2018). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) [ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf Dyddiad cyrchu: 23 Ionawr 2020.